

Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Caerdydd
Dydd Mawrth 20 Tachwedd 2018, 1 - 3pm
Ystafell C, Neuadd y Ddinas

<p><u>Mynychwyr</u></p> <p>Aelodau'r Bwrdd: Cynghorydd Huw Thomas (Cadeirydd) Maria Battle (Is-gadeirydd) Paul Orders Sarah McGill Fiona Kinghorn Abigail Harris Gareth O'Shea</p> <p>Sheila Hendrickson-Brown Dai Bents Hannah Williams Mark Brace Stephen Jones</p> <p>Ymddiheuriadau: Len Richards Sharon Hopkins Huw Jakeway Jo Salway Victoria Harris Helen Ryder</p> <p>Mynychwyr eraill: Alun Michael Joe Reay Gareth Newell Nathan Swain Clive Bailey (clerc)</p> <p>Nick Batchelar Lee Patterson Jane Thomas Gavin Macho</p>	<p>Arweinydd, Cyngor Caerdydd (CC) Cadeirydd, Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro, (BIP CaF) Prif Weithredwr, CC Cyfarwyddwr Corfforaethol Pobl a Chymunedau, CC Cyfarwyddwr Gweithredol Dros Dro Iechyd y Cyhoedd (BIP CaF) Cyfarwyddwr Cynllunio (BIP CaF) Cyfarwyddwr Gweithredol Gweithrediadau De Cymru, Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) Prif Swyddog Gweithredol, C3SC Rheolwr Grŵp, Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru (GTADC) Pennaeth Uned Gyflenwi Leol, Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol Comisiynydd Cynorthwyol Heddlu a Throsedd Prif Uwch-arolygydd, Heddlu De Cymru</p> <p>Prif Weithredwr, BIP CaF Dirprwy Brif Weithredwr, BIP CaF Prif Swyddog Tân GTADC Pennaeth Swyddfa'r Cabinet, Llywodraeth Cymru Pennaeth Uned Gyflenwi Leol, Cwmni Adsefydlu Cymunedol Cymru Llywodraethwr Carchar EM Caerdydd</p> <p>Comisiynydd Heddlu a Throsedd De Cymru Pennaeth Perfformiad a Phartneriaethau (CC) Rheolwr Polisi, Partneriaethau ac Ymchwil (CC) Prif Swyddog Polisi a Phartneriaethau (CC) Swyddog Polisi a Phartneriaethau (CC)</p> <p>Cyfarwyddwr Addysg a Dysgu Gydol Oes, CC Uwch Swyddog Ieuentid – Rhaglen Dinas Sy'n Dda i Blant (CC) Cyfarwyddwr Cynorthwyol, Tai a Chymunedau (CC) Prif Reolwr Brys, CC</p>
---	--

Rhif	Eitem Agenda	
1.	<p>Croeso a Chyflwyniadau</p> <p>Agorodd y Cadeirydd y cyfarfod a nododd yr ymddiheuriadau fel yr uchod.</p>	
2.	<p>Cofnodion a chymau gweithredu'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus - 20 Gorffennaf 2018</p> <p>Cytunwyd ar gofnodion y cyfarfod.</p> <p>Cofnodion a chymau gweithredu drafft Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus - 4 Hydref 2018</p> <p>Ni ddaeth unrhyw faterion i law.</p>	
3.	<p>Strategaeth Caerdydd Sy'n Dda i Blant</p> <p>Cyflwynodd Nick Batchelar (Cyfarwyddwr Addysg a Dysgu Gydol Oes) a Lee Patterson (Uwch Swyddog Ieuenctid, Rhaglen Dinas Sy'n Dda i Blant (CC)) Strategaeth Caerdydd Sy'n Dda i Blant ac fe'i cymeradwywyd yn ffurfiol gan y Bwrdd.</p> <p>Trafodwyd pwysigrwydd darpariaeth chwaraeon wrth sicrhau mynediad i'r amgylchedd naturiol a chefnogi lles plant a phobl ifanc.</p> <p>CAMAU GWEITHREDU:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Darparu cyfleoedd i Aelodau BGC gyfrannu at brosiect a arweinir gan y Cyngor ar ddatblygu asedau a seilwaith chwaraeon y ddinas. • Nodwyd bod gwaith y Bwrdd Rheoli Asedau'r Bartneriaeth ar ddefnyddio asedau a thir y sector cyhoeddus yn fater ar gyfer cyfarfod BGC yn y dyfodol. 	<p>Ysgrifenyddiaeth</p> <p>Ysgrifenyddiaeth</p>
4.	<p>Cynllun Gwasanaethau Clinigol</p> <p>Cyflwynodd Abi Harris y syniadaeth sy'n dod i'r amlwg ar fodel system gyfan ar gyfer gwasanaethau clinigol – gan symud o'r dull diodyn o ofal a thriniaeth mewn ysbytai i fodel sy'n seiliedig ar y gymuned ac sy'n ataliol.</p> <p>Trafodwyd y galwadau ar yr Heddlu wrth ddelio â phobl sy'n agored i niwed, yn enwedig y rhai â phroblemau iechyd meddwl.</p> <p>CAMAU GWEITHREDU:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Y model gwasanaethau clinigol i ddod yn ôl i'w ystyried gan y BGC wedi'r gwaith ymgysylltu ac ymgynghori. 	<p>Abigail Harris</p>

Rhif	Eitem Agenda	
	<ul style="list-style-type: none"> • Cyfarfod i'w gynnal i drafod gwasanaethau iechyd meddwl a'r rhyngwyneb rhwng yr Heddlu, y Cyngor a'r Gwasanaethau Iechyd (gwahoddedigion i gynnwys yr Heddlu, Iechyd, Sarah Moseley-Cyfarwyddwr Mind Cymru, 3ydd sector a'r ALI). • • "Baich afiechyd" i'w ystyried mewn cyfarfod BGC yn y dyfodol. 	<p>Prif Uwch-arolygydd Stephen Jones</p> <p>Ysgrifenyddiaeth/A bigail Harris</p>
5.	<p>Diweddariad y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol/Cronfa Trawsnewid Iechyd a Gofal Cymdeithasol</p> <p>Rhoddodd Sarah McGill y wybodaeth ddiweddaraf am waith y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol i ddatblygu model iechyd a gofal cymdeithasol integredig, gwaith sy'n cyd-fynd yn agos â datblygu cynllun gwasanaethau clinigol Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro (gweler yr eitem flaenorol ar yr agenda).</p> <p>Mae'r prosiectau a gynigiwyd yn y cais i'r gronfa gweddnewid 'Cymru Iachach' i gyd wedi'u cymeradwyo gan Lywodraeth Cymru.</p> <p>Mae'r camau nesaf yn cynnwys darparu ymateb partneriaeth i 'Cymru Iachach' – gan gynnwys ail Gais Trawsnewid erbyn y Nadolig.</p> <p>Cynhaliwyd trafodaeth ar y berthynas rhwng y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol a'r Bwrdd Gwasanaeth Cyhoeddus.</p> <p>Mae Gofal Cymdeithasol Cymru yn cynnal adolygiad cenedlaethol o'r berthynas rhwng Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol a'r Byrddau Gwasanaeth Cyhoeddus, i adrodd yn ôl yn y flwyddyn newydd.</p> <p>CAM GWEITHREDU:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Cytunwyd bod angen gwneud rhagor o waith yn awr i gysoni gwaith y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol a'r Bwrdd Gwasanaeth Cyhoeddus er mwyn symleiddio'r trefniadau cyflawni priodol. 	<p>Ysgrifenyddiaeth</p>
6.	<p>Strategaeth Ddigartrefedd Ddrafft</p> <p>Rhoddodd Jane Thomas gyflwyniad ar y Strategaeth Ddigartrefedd ddrafft.</p> <p>Trafodwyd yr angen i ddatblygu Tîm Amlasiantaeth Canol y Ddinas ymhellach er mwyn mynd i'r afael â materion iechyd meddwl a chamddefnyddio sylweddau.</p> <p>Bydd y Bwrdd Partneriaeth Ardal yn cyfarfod ar 5 Rhagfyr i ystyried y trefniadau ar gyfer comisiynu gwasanaethau cymorth camddefnyddio sylweddau yn y dyfodol.</p>	

Rhif	Eitem Agenda	
	<p>CYTUNWYD:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Cytunwyd bod cyfarfodydd y BPA yn rhoi cyfle i adolygu ac ail-gomisiynu gwasanaethau mewn ffordd gydgyssylltiedig. • Pob sefydliad i adolygu ei wasanaethau i bobl sy'n cysgu allan ac sy'n agored i niwed ac adrodd yn ôl mewn cyfarfod yn y dyfodol. <p>CAM GWEITHREDU:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Aelodau'r BGC i ddarparu unrhyw sylwadau ar y strategaeth Ddigartrefedd, cyn iddi gael ei hystyried gan y Cabinet ym mis Rhagfyr. 	<p>Fiona Kinghorn</p> <p>Jane Thomas/Pawb</p> <p>Jane Thomas/Pawb</p>
7.	<p>Diweddariad Cyllideb</p> <p>CYTUNWYD:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Dosbarthu'r diweddariad cyllideb 2019/20 i Aelodau'r BGC. • 	<p>Ysgrifenyddiaeth</p>
8.	<p>Ymateb Tywydd Eithafol</p> <p>Rhoddodd Gavin Macho ddiweddariad ar y gwaith sy'n cael ei wneud i sicrhau y bydd yr adnoddau cyfyngedig yn cael eu defnyddio yn y ffordd fwyaf effeithiol mewn ymateb i ddigwyddiadau tywydd eithafol.</p> <p>Cynhaliwyd trafodaeth ar harneisio gallu cymunedau i helpu gydag ymateb.</p> <p>CAM GWEITHREDU:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Y Grŵp Parodrwydd Logistaidd i fapio capasiti o ran asedau a phersonél ar lefelau gwahanol o ran cyfrifoldeb, ac i adrodd yn ôl am unrhyw fylchau sylweddol. • Dull sy'n harneisio'n ddiogel y defnydd o berchenogion/gyrwyrr 4x4 gwirfoddol i'w datblygu a'i gyflwyno'n ôl i Fwrdd Cyflawni'r BGC i'w ystyried. 	<p>Gavin Macho</p> <p>Gavin Macho</p>
9.	<p>Sganiau'r Gorwel ac Unrhyw Fusnes Arall</p> <p><u><i>Cylch Gorchwyl ac Amserlen Cyfarfodydd y BGC:</i></u></p> <p>CYTUNWYD:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Cylch Gorchwyl Diwygiedig • Amserlen cyfarfodydd 2019/2020 <p><u><i>Cyfarfod Cyffredinol Blynnyddol C3SC</i></u></p> <p>CAM GWEITHREDU:</p>	<p>Ysgrifenyddiaeth</p>

Rhif	Eitem Agenda	
	<ul style="list-style-type: none"> • Aelodau'r BGC i enwebu cynrychiolwyr i fynychu cyfarfod cyffredinol blynyddol C3SC, 27 Tachwedd 2018. <p><u><i>Ymgynghoriad ar Wasanaethau Llawdriniaeth Thorasiq:</i></u></p> <p>Bydd BIP CaF yn cyfarfod cyn bo hir i ystyried yr ymateb i'r ymgynghoriad.</p> <p><i>Blaengynllun:</i></p> <p>Ni chynigiwyd unrhyw eitemau agenda eraill.</p>	<p>Ysgrifenyddiaeth / Pawb</p>
	<p>Dyddiadau'r cyfarfodydd nesaf:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Bwrdd Cyflawni'r BGC 25 Ionawr 2019 • Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Caerdydd, 13 Mawrth 2019 	